



Plaid  
Cymru | Party of  
Wales

Stronger Communities for a  
**Stronger Wales**

Cryfhau Cymunedau  
**Cryfhau Cymru**

Maniffesto 2017 Manifesto



# Ein gweledigaeth

Mae'r etholiadau hyn yn fater o anfon neges ei bod yn amser i'r llywodraethau yng Nghaerdydd a San Steffan ddechrau gwrandao ar gymunedau Cymru. Mae'n fater o ddweud na fydd ein cymunedau bellach yn sefyll ar yr ymylon a chael eu hanwybyddu tra bo gwasanaethau lleol yn cael eu hisraddio neu eu gwerthu.

Mae Plaid Cymru, fel yr unig blaid sydd wedi ei lleoli yng Nghymru yn unig, yn sefyll yn yr etholiad hwn fel plaid leol y bobl. Bydd ein cynghorwyr ni yn sefyll dros yr ardaloedd y cânt eu hethol i'w cynrychioli ac yn gofalu fod lleisiau'r cymunedau hynny yn cael eu clywed. Mae manifestio Plaid Cymru yn amlinellu sut y byddwn yn cadw'r addewid hwn.

Rydym yn addo dim byd llai nac adeiladu Cymru newydd, gyda chyfleoedd yn cael eu lledaenu drwy'r wlad yn hytrach na ffafrio un ardal neu ranbarth yn arbennig.

Bydd cynghorau dan arweiniad Plaid Cymru yn canolbwyntio ar greu swyddi a phrentisiaethau lleol, adfywio canol trefi a glanhau ein cymunedau.

Byddwn yn rhoi addysg o'r radd flaenaf i bob plentyn, gyda chynghorau dan arweiniad Plaid Cymru ar hyn o bryd ar frig tablau perfformiad Cymru.

Mae cynghorau Plaid Cymru yn prynu'n lleol, yn buddsoddi'n lleol, ac yn blaenoriaethu ac annog cwmnïau lleol i ennill contractau'r cyngor, a chefnogi swyddi lleol trwy wneud hynny.

Byddwn yn creu tai fforddiadwy ac yn mynnu bod datblygwyr yn parchu ein hamgylchedd, ein treftadaeth a'n mannau gwyrdd.

Lle mae gennym ni ddigon o ddylanwad, fe fydd Plaid Cymru

yn cadw cyflogau a thâl y swyddi uchaf i lawr, ac yn codi tâl ein gweithwyr cyffredin.

Lle bu esgeulustod, a lle na wrandawyd ar bobl, bydd cynghorwyr Plaid Cymru yn ymgysylltu a gwrandao ar y cyhoedd. Bydd ein cynghorwyr ni yn gwrandao ar bryderon lleol ac yn brwydro dros eu milltir sgwâr. Fyddan nhw ddim yn ymddiheuro am wneud hynny chwaith, gan mai dyna yw ystyr bod yn gynrychiolydd lleol.

Nid rhywbeth i'w gyfyngu i neuadd y dref neu siambr y cyngor yw democratiaeth. Mae'n rhaid i ymgeiswyr Plaid Cymru fod â chysylltiad â'u cymuned leol ac ymwneud â bywyd lleol drwy'r flwyddyn, gan roi buddiannau'r trigolion lleol yn flaenaf. Dyna sut mae cynrychioli Plaid Cymru, a chael eich cynrychioli gan Plaid Cymru.

Felly anfonwch neges yn eich etholiad lleol trwy fwrw pleidlais i'ch plaid leol, Plaid Cymru.

Annibyniaeth yw ein dyhead tymor-hir fel plaid o hyd. Mae adeiladu cefnogaeth ar gyfer mwy o awtomatiaeth a hunanlywodraeth yn golygu dangos i bobl Cymru y gallwn ni fod yn llwyddiant economaidd fel cenedl. Mae rhaid i hyn ddechrau ar lefel leol ac mae Llywodraeth Leol sy'n arloesol ac yn uchelgeisiol yn hanfodol, yn enwedig yng Nghymru ôl-Brexit lle mae cyllid ar gyfer cymaint o brosiectau yn y fantol. Fe all, ac fe fydd cynghorau a arweinir gan Plaid Cymru yn cyflawni hyn.

**Leanne Wood**  
Arweinydd Plaid Cymru

# Our vision

These elections are about sending a message that it's time that governments in Cardiff and Westminster started listening to Welsh communities. It is about saying that our communities will no longer stand idly by while they are ignored and local services are downgraded or sold off.

Plaid Cymru, as the only party based entirely in Wales, is standing in this election as the people's local party. Our councillors will stand up for the areas they are elected to represent and will make sure that the voices of those communities are heard. Plaid Cymru's manifesto outlines how we will deliver on this pledge.

We are pledging nothing less than to build a new Wales, with opportunity for prosperity spread throughout the country instead of favouring any one area or region.

Plaid Cymru-led councils will concentrate on creating local jobs and apprenticeships, regenerating town centres and cleaning up our communities.

We will provide every child with high quality education; Plaid Cymru-led councils currently top the Welsh performance tables.

Plaid Cymru councils buy locally, and invest locally, at all times prioritising and encouraging local firms to win council contracts, and supporting local jobs in the process.

We will create affordable housing and demand that developers respect our environment, heritage and green spaces.

Where Plaid Cymru has enough influence, we will hold down senior salaries and pay at the top, and boost pay for our ordinary workers.

Where there has been neglect, and where people haven't been listened to, Plaid Cymru councillors will engage with the public. Our councillors will listen to local concerns and will fight for their local patch. They will make no apology for doing so, since this is what it means to be a local representative.

Democracy isn't something confined to the town hall or the council chamber. Plaid Cymru candidates must have a connection to their local community and must be involved in local life all year round, putting the interests of local residents first. That is what it means to represent Plaid Cymru, and to be represented by Plaid Cymru.

So send a message in your local election by voting for your local party, Plaid Cymru.

Independence remains our long-term aspiration as a party. Building support for greater autonomy and self-government means demonstrating to the people of Wales that we can be an economic success as a nation. This must start at the local level and innovative, visionary Local Government is crucial, especially in a post-Brexit Wales where funding for so many projects is now at risk. Plaid Cymru run councils can and will deliver this.



Leanne Wood  
Leader of Plaid Cymru – The Party of Wales



# Cryfhau cymunedau, cryfhau Cymru

Mae Plaid Cymru wastad wedi bod o blaid newid. Rydyn ni erioed wedi amddiffyn y status quo. Ein nod pob tro yw newid Cymru er gwell, ac adeiladu system wleidyddol sy'n gweithio i bobl Cymru, system lle mae gwleidyddion yno i wasanaethu'r bobl.

Pan fo pobl yn sôn eu bod wedi syrffedu â gwleidyddiaeth, maent yn aml yn sôn am y materion gwleidyddol sydd yno ar stepen eu drws: ysgolion sydd heb fod yn ddigon da; sbwriel heb ei gasglu mewn pryd; anhawster cael gofal i berthnasau oedrannus; rhestrau aros am dai sydd fel petaent yn mynd ymlaen am byth; cyfleusterau lleol yn cau; traffig mewn anhrefn; arian yn cael ei wastraffu yn hytrach na'i wario i wneud ein bywydau yn well.

Ers yn rhy hir o lawer, rydym wedi bodloni ar wasanaeth eilradd gan lawer o'n cynghorau. Mae Plaid Cymru eisiau adeiladu Cymru newydd, ac yn ein barn ni, y lle gorau i ddechrau yw wrth ein traed. Lle mae Plaid Cymru yn arwain ein cynghorau - Sir Gâr, Ceredigion, Conwy a Gwynedd - rydym yn darparu gwasanaethau ardderchog, er gwaetha'r cyfyngiadau ariannol llym arnom. Mae'r cynghorau hyn yn arwain yng Nghymru mewn meysydd mor amrywiol â thai cymdeithasol, addysg, strydoedd glân ac ailgylchu.

Mae gwasanaethau cyhoeddus o safon yn ganolog i ffyniant ein cenedl. Nhw yw'r glud sy'n asio ein cymdeithas, a'r rhwyd ddiogelwch sy'n cynnal y mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Po fwyaf o gynghorwyr

Plaid Cymru a etholir gennych ym mis Mai, gwell fydd ansawdd y gwasanaethau y gallwch ddisgwyl.

Mae ein cynghorau yn aml yn cael eu cyfyngu gan obsesiwn Llywodraeth Cymru â meicro-reoli popeth a wnânt. Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy yn ein barn ni. Er ein bod yn cefnogi'r syniad o gynghorau yn gweithio gyda'i gilydd er lles pawb, yr ydym hefyd yn bendant o'r farn fod yn rhaid iddynt aros yn atebol i'r bobl leol, nid i weision sifil ym Mae Caerdydd. Bydd cynghorwyr Plaid Cymru yn bencampwyr eu cymunedau ac yn defnyddio'r holl bwerau sydd ganddynt i wella bywydau pobl, i gryfhau cymunedau Cymru, ac i roi grym yn ôl yn nwylo'r bobl. All pethau ddim parhau fel o'r blaen. Mae'n bryd i ni ddechrau ail-godi Cymru, a chreu cenedl sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae'r etholiad hwn yn gyfle i ni gychwyn ar y gwaith hwnnw.

**Sian Gwenllian AC**  
**Ysgrifennydd Cabinet cysgodol dros Lywodraeth Leol**  
**Plaid Cymru**

# Stronger communities for a stronger Wales


Plaid Cymru has always been a party of change. We have never been defenders of the status quo. Our aim has always been to change Wales for the better, to build a political system that works for the people of Wales, a system where politicians are there to serve the people.

When people talk of being fed up with politics, they're often talking about the political issues that are there on their doorsteps: schools that aren't up to scratch; rubbish that isn't being collected on time; difficulty in accessing care for our elderly relatives; waiting lists for housing that seem to go on forever; local facilities closing; traffic chaos; money being wasted, rather than being spent on making our lives better.

For far too long, we have put up with a second rate service from many of our councils. Plaid Cymru want to build a new Wales, and we believe that the best place to start is where we stand. Where Plaid Cymru is leading our councils – Carmarthenshire, Ceredigion, Conwy and Gwynedd – we provide excellent services, despite the severe financial constraints on us. These councils lead Wales in areas as diverse as social housing, education, clean streets and recycling.

Quality public services are central to the prosperity of our nation. They are the glue that binds our society together and the safety net that supports the most vulnerable in our society. The more Plaid Cymru councillors you elect this May, the better the quality of services you can expect.

Our councils are often limited by the Welsh government's obsession with micro-managing what they do. We believe that this situation is unsustainable. While we support the idea of councils working together for the common good, we also firmly believe that they must remain accountable to local people, and not to civil servants in Cardiff Bay. Plaid Cymru councillors will be community champions and will use all the powers at their disposal to improve people's lives, to strengthen Welsh communities, and to put power back in the hands of the people. There can be no more business as usual. It is time for us to start rebuilding Wales, creating a nation that is fit for the 21st Century. This election is an opportunity for us to begin that work.



**Sian Gwenllian AC**  
Shadow Cabinet Secretary for Local Government  
Plaid Cymru – The Party of Wales

---

# Gwario eich arian lle mae'n cyfrif

---

- Amddiffyn eich gwasanaethau
- Cyfyngu ar gyflogau'r haen uchaf
- Torri'n ôl ar fiwrocratiaeth



---

# Spending your money where it counts

---

- **Protecting your services**
- **Clamping down on top-level pay**
- **Cutting back on bureaucracy**



# Amddiffyn eich gwasanaethau

Ers 2011-12, mae'r cyllid gan Lywodaeth Cymru ar gyfer cynghorau wedi gostwng 6.5%. Mae'r gostyngiad hwn wedi effeithio ar rai o'r bobl wannaf a mwyaf bregus yn ein cymunedau, gan eu taro galetaf. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Ariannol yn amcangyfrif y gallai cynghorau lleol weld toriadau pellach i'w cyllidebau dros y blynyddoedd nesaf. Er gwaethaf bygythiad y toriadau, bydd Plaid Cymru yn parhau i frwydro i amddiffyn aelodau gwannaf a mwyaf bregus ein cymunedau - gan gynnwys yr henoed, pobl ag anableddau a phlant - sydd yn dibynnu ar wasanaethau allweddol a ddarperir gan ein cynghorau. Yn ddiweddar, fe wnaethom ddangos ein hymrwymiad i amddiffyn cyllidebau cynghorau trwy sicrhau £25m yn ychwanegol i'n cynghorau trwy ddylanwadu ar gyllideb ddiweddaraf Llywodraeth Cymru. Bydd ein haelodau etholedig yn parhau i frwydro am adnoddau teg i amddiffyn y gwasanaethau y mae cymaint o bobl yn dibynnu arnynt. Bydd Plaid Cymru hefyd yn canolbwyntio ar warchod staff rheng-flaen a chyflwyno gwasanaethau rheng-flaen o'r safon uchaf.

“

**Bydd ein haelodau etholedig yn parhau i frwydro am adnoddau teg i amddiffyn y gwasanaethau y mae cymaint o bobl yn dibynnu arnynt.**

”





# Protecting your services

Since 2011-12, central Welsh Government funding for councils has decreased by 6.5%. This decrease in funding has affected some of the weakest and most vulnerable people in our communities, hitting them hardest. The Institute for Fiscal Studies estimates that local councils could see their budgets cut again in the next few years. Despite the threat of cuts, Plaid Cymru will continue to fight to protect the weakest and most vulnerable members of our communities – including the elderly, the disabled and children - who rely on key services provided by our councils. We have recently demonstrated our commitment to protect council budgets by securing an additional £25m for our councils by influencing the most recent Welsh Government budget. Our elected members will continue to fight for fair resources to protect services which so many people rely upon. Plaid Cymru will also concentrate on protecting front-line staff and delivering first-class front-line services.

“  
**Our elected members will continue to fight for fair resources to protect services which so many people rely upon.**  
”

# Cyfyngu ar gyflogau'r haen uchaf

Mae Plaid Cymru yn cydnabod bod ein cynghorau angen staff o'r ansawdd gorau i'w rhedeg, a bod y bobl hyn yn haeddu cael tâl teilwng am eu gwaith. Ond yn rhy aml o lawer, mae'r sawl sy'n rhedeg ein cynghorau yn derbyn symiau aruthrol o arian, ond ar yr un pryd yn cyflwyno gwasanaethau gwael. Rydym ni wedi ymrwymo i gyfyngu ar gyflogau'r haen uchaf o reolaeth, a lle mae Plaid Cymru mewn grym, rydym wedi gweithredu i gadw tâl uwchswyddogion ar lefel resymol. Mae Plaid Cymru eisoes yn gosod esiampl: ar gyfartaledd mae'r cyflog i Brif Weithredwyr sy'n rhedeg cynghorau dan arweiniad Plaid Cymru bron i £22,000 yn llai na'r rhai a redir gan gynghorau Llafur yng Nghymru.

Mae cyfyngu ar gyflogau'r rhai ar y lefel uchaf yn rhan o sicrhau fod pawb sy'n gweithio i'n hawdurdodau lleol yn cael borgen deg. Rydym eisiau cau'r bwlch rhwng y rhai ar y brig a'r rhai ar y gwaelod. Pam dylai gweithwyr cyffredin yn y cyngor wynebu rhewi eu cyflogau, tra bod y lleill yn derbyn symiau enfawr? Fe fyddwn ni'n gweithio tuag at fargen deg i bob gweithiwr cyngor, gan gychwyn gyda'r rhai ar y cyflogau isaf.

“ **Fe fyddwn ni'n gweithio tuag at fargen deg i bob gweithiwr cyngor, gan gychwyn gyda'r rhai ar y cyflogau isaf.** ”



# Clamping down on top-level pay

Plaid Cymru recognises that councils need top-quality staff to run them, and that these people deserve to be paid fairly for their work. But all too often, those that run our councils are walking away with excessive sums of money, while at the same time delivering poor quality services. We are committed to pay restraint at the highest level of management, and where Plaid Cymru is in power we have acted to hold down executive pay. Plaid Cymru are already leading by example; the average salary for Chief Executives running Plaid Cymru-led Councils is nearly £22,000 less than those run by Labour Councils in Wales.

Clamping down on top-level pay is part of ensuring that everyone who works for our local authorities gets a fair deal. We want to close the gap between those at the top and those at the bottom. Why should ordinary workers at the council face a freeze in their pay, while others walk away with huge amounts? We will work towards a fair deal for all council workers, beginning with the lowest-paid.

“  
**We will work towards a fair deal for all council workers, beginning with the lowest-paid.**  
”

# Torri'n ôl ar fiwrocratiaeth

Mae gan Lywodraeth Lafur Cymru obsesiwn â meicro-reoli llywodraeth leol o Gaerdydd. Mae staff cynghorau yn aml yn cael eu gorfodi i dreulio'u hamser yn ticio bocsys yn hytrach nag ymdrin ag anghenion pobl leol. Penderfynodd Cyngor Gwynedd dan reolaeth Plaid Cymru gymryd safiad, a gosod ffordd newydd o weithio, dan y teitl Ffordd Gwynedd. Gall staff yn awr anghofio am dicio bocsys, gan roi anghenion y bobl leol yn gyntaf. Wrth wneud hyn, mae Cyngor Gwynedd wedi trawsnewid y modd maent yn cyflawni rhai o'u gwasanaethau craidd. Mae'n ffordd o gynnal busnes sy'n gofalu bod yr arian yn cael ei wario lle mae ei angen, yn y ffordd orau oll.

Yn Ysbyty Cymunedol Alltwen, mae Ffordd Gwynedd wedi trawsnewid ethos a gwasanaethau'r ysbyty er gwell, gan sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu llunio gan bawb sy'n rhan o'r peth, er mwyn cael y canlyniadau a'r profiad gorau i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae staff yn cael eu hannog a'u galluogi i wneud yr hyn dybiant hwy sydd orau ym mhob sefyllfa, heb gael eu rhwystro na'u dal yn ôl trwy orfod ticio bocsys neu drwy wneud pethau fel y maent wedi eu gwneud erioed. Bydd cynghorwyr Plaid Cymru yn rhannu'r ethos hwn - ein cred ni yw y gellir ac y dylid defnyddio ffyrdd newydd o weithio er mwyn darparu gwasanaethau sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf, sy'n lleihau biwrocratiaeth ac yn gwneud y mwyaf o amser ac adnoddau staff.

“

**Ein cred ni yw y gellir ac y dylid defnyddio ffyrdd newydd o weithio er mwyn darparu gwasanaethau sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf, sy'n lleihau biwrocratiaeth ac yn gwneud y mwyaf o amser ac adnoddau staff.**

”



# Cutting back on bureaucracy

The Labour Welsh government is obsessed with micro-managing local government from Cardiff. Council staff are often forced to spend time ticking boxes, rather than addressing the needs of local people. Plaid Cymru-run Gwynedd Council decided to take a stand, putting in place a new way of working, entitled Ffordd Gwynedd – The Gwynedd Way. Staff are now told to forget about box-ticking, and to put the needs of local people first. In doing so, Gwynedd Council has transformed how they deliver some of their core services. It is a way of doing business that ensures that money is spent where it's needed, in the best way possible.

At Ysbyty Gymunedol Alltwn Community Hospital, Ffordd Gwynedd has transformed the hospital's ethos and services for the better, ensuring that services are shaped by all involved to achieve the best possible outcome and experience for service users. Staff are encouraged to do what they think is best in every situation, and not be hindered or held back by box-ticking or by doing things as they've always been done.

Plaid Cymru Councillors will share this ethos – we believe that new ways of working can and should be used in order to provide services that put the customer first, that cut back on bureaucracy and make the most of staff time and resources.

“

**We believe that new ways of working can and should be used in order to provide services that put the customer first, that cut back on bureaucracy and make the most of staff time and resources.**

”

---

# Amddiffyn y gwannaf a'r mwyaf bregus

---

- Brwydro dros well  
gofal cymdeithasol



---

# Protecting the weak and vulnerable

---

- Fighting for better social care



# Amddiffyn y gwannaf a'r mwyaf bregus

Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi dioddef toriadau enbyd dan Lafur a'r Torïaid fel ei gilydd. Cenhadaeth y llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yw tansellio'r wladwriaeth les, gan dorri'r gyllideb Gymreig o hyd at 7.4% rhwng nawr a 2019/20. Mae Llafur yng Nghymru, yn eu tro, wedi penderfynu pasio'r bai, gan dorri cyllidebau cynghorau yn y gobaith mai ein cynghorau - ac nid Llywodraeth Cymru - gaiff y bai am y toriadau. Mae'r toriadau hyn wedi rhoi pwysau enfawr ar wasanaethau ac fe fyddant yn dal i wneud hynny. Bydd Plaid Cymru yn brwydro i amddiffyn aelodau gwannaf a mwyaf bregus ein cymunedau. Mae hyn yn golygu amddiffyn y gwasanaethau sy'n gofalu am yr henoed, yr anabl a phlant.

Er y bydd Plaid Cymru yn gweithio i amddiffyn y gwasanaethau sy'n bodoli, rydym yn cydnabod hefyd nad yw aros yn yr unfan yn opsiwn. Mae'r byd o'n cwmpas yn newid yn gyflym, ac y mae angen i'n gwasanaethau craidd newid yn unol â hynny. Er gwaethaf yr heriau ariannol, bydd cynghorau Plaid Cymru yn gweithio i ddatblygu dulliau newydd ac arloesol o gyflwyno gwasanaethau craidd: addysg sy'n paratoi ein plant at fywyd mewn cymdeithas fyd-eang; cefnogaeth i deuluoedd mewn anhawster; gofal i'r henoed sydd yn cydnabod eu bod yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaethau hyn i bawb - i'r bobl sydd wedi bod yma ers cenedlaethau ochr yn ochr â'r rhai sydd wedi dewis ymgartrefu yma yng Nghymru. Mae ein cynghorau yn ymroddedig i ddarparu noddfa i'r rhai sy'n ffoi o ryfel ac erledigaeth dramor. Rydym hefyd yn sefyll yn gadarn gyda dinasyddion Ewrop yng Nghymru, sydd yn wynebu dyfodol ansicr wedi Brexit.

“

**Bydd Plaid Cymru yn brwydro i amddiffyn aelodau gwannaf a mwyaf bregus ein cymunedau. Mae hyn yn golygu amddiffyn y gwasanaethau sy'n gofalu am yr henoed, yr anabl a phlant.**

”





# Protecting the weak and vulnerable

Welsh public services have suffered drastic cuts at the hands of both Labour and the Tories. The Conservative government at Westminster is on a mission to undermine the welfare state, slashing the Welsh budget by up to 7.4% between now and 2019/20. Labour in Wales, in turn, have decided to pass the buck, cutting council budgets in the hope that our councils - and not the Welsh government - are blamed for the cuts. These cuts have placed, and will continue to place, enormous pressures on services. Plaid Cymru will fight to protect the weakest and most vulnerable members of our communities. This means protecting the services that care for the elderly, the disabled, and children.

While Plaid Cymru will work to protect existing services, we also recognise that standing still isn't an option. The world around us is changing rapidly, and our core services need to change accordingly. Despite the financial challenges, Plaid Cymru councils will work to develop new, innovative methods of delivering core services: education that prepares our children for life in a global society; support for families that are struggling; care for the elderly that recognises that they are valuable members of society.

We are committed to providing these services for all - those of us who have been here for generations alongside those who have chosen to make a new home for themselves in Wales. Our councils are committed to providing a safe haven for those fleeing war and persecution abroad. We also stand firm with European citizens in Wales, who face an uncertain future after Brexit.

“

**Plaid Cymru will fight to protect the weakest and most vulnerable members of our communities. This means protecting the services that care for the elderly, the disabled, and children.**

”

# Brwydro dros well gofal cymdeithasol

Gall gwasanaethau cymdeithasol da wneud gwahaniaeth enfawr i berfformiad y GIG. Pan fo gwasanaethau cymdeithasol yn methu, gallwn weld y canlyniadau yn ein hysbytai a'n meddygfeydd wrth i bobl fethu â derbyn y gofal mae arnynt ei angen i atal amodau rhag gwaethygu, gan dreulio amser hirach yn yr ysbyty yn aros i becynnau gofal gael eu trefnu.

Fodd bynnag, mae ein gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn ei chael yn anodd mewn hinsawdd ariannol galed, gyda galwadau cynyddol ar eu gwasanaethau. Mae Llafur wedi cau ysbytai cymunedol, mae'r lefel o ofal seibiant a roddir i ofalwyr wedi cwmpo, ac mae'r nifer o addasiadau cartref a chyfarpar a gyflenwir gan gynghorau wedi gostwng. Mae angen cynllun achub ar Ofal Cymdeithasol.

Mae cynllun Plaid Cymru am ofal cymdeithasol yn golygu gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau iechyd a chymdeithasol, a chefnogaeth i bobl fyw yn annibynnol. Bydd gan ysbytai cymunedol ran hanfodol yn y cynllun achub hwn, gan gynnig gwelyau a gwasanaethau cefnogi i'r GIG, Gofal Cymdeithasol, a gofalwyr di-dâl.

Byddwn yn cynyddu'r gefnogaeth a gynigir i ofalwyr, gan eu helpu i aros mewn gwaith a chynnal eu hiechyd eu hunain. Bydd ein hadrannau addysg yn rhoi help ychwanegol i blant sydd â chyfrifoldebau gofal. Mae cynghorau Plaid Cymru, a chynghorwyr Plaid Cymru wedi ymrwymo i helpu gofalwyr wneud eu ffordd trwy system fudd-daliadau sydd yn gymhleth ac yn aml yn annheg.

Bydd cynghorau Plaid Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad sydd ar gael mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Bydd y buddsoddiadau hyn yn golygu blaenoriaethu datblygu gwelyau ychwanegol sydd ar gael yn lleol i ddarparu gofal meddygol, gofal seibiant, a hwyluso'r symud yn ôl gartref i bobl fu yn yr ysbyty. Bydd ein cynghorau hefyd yn gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth iechyd i gyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal sydd yn addas i anghenion yr unigolyn, boed y gwasanaethau hynny yn cynnwys gweithwyr Gofal Cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig megis therapyddion galwedigaethol, neu feddygon a nyrsys.

Bydd staff Gofal Cymdeithasol hefyd yn cael gofal gyda'r bwriad o wneud gofal cymdeithasol yn yrfa y gall pobl fod eisiau gweithio ynddi. Caiff mudiadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a brofwyd yn effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian yn cael eu gwobrwyo â chontractau hwy er mwyn sicrhau bod staff sy'n cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn teimlo'n ddiogel heb orfod brwydro am gyllid bob blwyddyn.

Nod Plaid Cymru yn y tymor hir yw darparu gofal personol am ddim i'r henoed a'r sawl sy'n dioddef o dementia. Bydd ein cynghorau yn gweithio ynghyd i bwysu ar y llywodraeth Lafur am arian i gyrraedd y nod hwn.

# Fighting for better social care

Good social services can make a huge difference to the performance of the NHS. When social services fail we see the consequences in our hospitals and GP surgeries as people fail to receive the care they need to prevent their conditions getting worse, and they spend longer in hospital waiting for care packages to be arranged.

However, our Social Care services are struggling with a tough financial climate and increasing demands being placed upon their services. Community Hospitals have been closed by Labour, the amount of respite care given to carers has fallen, and home adaptations and equipment supplied by councils has decreased. Social Care needs a rescue plan.

Plaid Cymru's plan for social care involves maximising the resources available for health and social services, and support for people to live independently. Community Hospitals will play a vital role in this rescue plan, offering beds and support services to the NHS, Social Care, and unpaid carers.

We will increase the support that is offered to carers, helping them to stay in employment and maintain their own health. Our education departments will provide additional help for children with caring responsibilities. Plaid Cymru councils, and Plaid Cymru councillors, are committed to helping carers navigate a complex and often unfair benefits system.

Plaid Cymru councils will work with local health boards to maximise the investment available in local health and social care services. These investments will involve prioritising the development of extra beds available locally for providing medical care, respite care, and easing the transition back to home for people who have been in hospital. Our councils will also work together with the health service to deliver Health and Care services that fit the needs of the individual regardless of whether those services involve Social Care workers, allied health professionals such as Occupational Therapists, or Doctors and Nurses.

Social Care staff will also be looked after with the intention of making social care a career that people can aspire to working in. Third Sector organisations providing Social Care services that are proved to be effective and value for money will be rewarded with longer contracts to ensure that staff delivering these services feel secure and are no longer fighting for funding every year.

Plaid Cymru's long-term aim is to provide free personal care for the elderly and those suffering from dementia. Our councils will work together to press the Labour government for funding to achieve this aim.

---

# Addysg o'r radd flaenaf i bob plentyn

---

- Cyrraedd Rhagoriaeth
- Dyfodol Dwyieithog



---

# An outstanding education for every child

---

- Achieving excellence
- A bilingual future





# Addysg o'r radd flaenaf i bob plentyn

Mae'r gostyngiad mewn safonau addysg dan Lafur yn warth cenedlaethol. Ers dros ddegawd, mae Cymru wedi llusgo y tu ôl i weddill y DG mewn llwyddiant addysgol. Plaid uchelgeisiol yw Plaid Cymru; rydym eisiau gweld plant Cymru yn mynd ymlaen i arwain y byd ym mheth bynnag a wnânt. Gwyddom y gall ein plant wneud cymaint, ond maent yn cael eu dal yn ôl gan system addysg ffaeledig.

Lle'r ydym ni mewn grym, mae safonau addysgol wedi codi yn gyson. Nid cyd-ddigwyddiad mo hyn. Adeg etholiadau Cyngor diwethaf yn 2012, fe wnaethom ymrwymiad i godi safonau addysgol. Lle buom yn fuddugol, fe wnaethom gadw'r addewid hon ac y mae safonau wedi gwella. Ceredigion, dan arweiniad Plaid Cymru, yw'r gorau yng Nghymru ar hyn o bryd am addysg. Ein gweledigaeth am 2017 a thu hwnt yw gweld gwelliannau addysg ym mhob ysgol, ym mhob ardal, ar hyd a lled Cymru.

“ **Ceredigion, dan arweiniad Plaid Cymru, yw'r gorau yng Nghymru ar hyn o bryd am addysg. Ein gweledigaeth am 2017 a thu hwnt yw gweld gwelliannau addysg ym mhob ysgol, ym mhob ardal, ar hyd a lled Cymru.** ”



# An outstanding education for every child

The decline in educational standards under Labour is a national scandal. For over a decade Wales has lagged behind the rest of the UK when it comes to educational attainment. Plaid Cymru is the party of ambition; we want to see Welsh children go on to be world-leaders in whatever they do. We know that our children are capable of so much, but they are being held back by a broken educational system.

Where we are in power, educational standards have risen consistently. This is no accident. Back in the 2012 Council elections, we made a commitment to raise educational standards. Where we won, we delivered on this promise and standards have improved. Plaid Cymru-led Ceredigion Council is currently ranked best in Wales for education. Our vision for 2017 and beyond is that education improvements are seen in every school, in every area, across Wales.

“  
**Plaid Cymru-led Ceredigion Council is currently ranked best in Wales for education. Our vision for 2017 and beyond is that education improvements are seen in every school, in every area, across Wales.**  
”



# Cyrraedd rhagoriaeth

Ceredigion ar hyn o bryd yw'r unig gyngor yng Nghymru sydd wedi'i raddio fel un ardderchog gan yr arolygwyr ysgolion, Estyn. Llwyddwyd i wneud hyn yn rhannol gan system newydd arloesol sydd yn olrhain datblygiad plentyn o'r blynyddoedd cynharaf oll. Gan ddefnyddio'r system hon, gall Ceredigion adnabod y plant hynny sydd angen help ychwanegol yn gynnar yn eu bywydau. Wrth wneud hyn, mae adnoddau yn cael eu targedu lle mae mwyaf eu hangen, a lle ceir y mwyaf o effaith.

Rhan o'r broblem gyda'n system addysg yw bod athrawon yn aml yn cael eu llethu gan fiwrocratiaeth. Mae'r amser maent yn treulio gyda'r disgyblion yn werthfawr, ac y mae pob munud a dreuliant ar waith papur yn eu dwyn ymaith oddi wrth eu gwir waith, sef dysgu. Mae Plaid Cymru yn credu mewn cefnogi athrawon, yn hytrach na'u beirniadu yn ddi-baid. Yn aml iawn, nid athrawon nac ysgolion yw'r broblem, ond y system o archwilio a rheoleiddio sy'n newid byth a beunydd. Bydd cynghorau Plaid Cymru yn symud y pwyslais i ffwrdd o drefn ganolog sy'n cael ei rhedeg yng Nghaerdydd. Dylai gwelliannau addysgol fod yn fater o wneud yr hyn sydd orau i'r disgybl unigol, gydag ysgolion yn atebol i'r gymuned leol, nid rhyw gwango pellennig.





# Achieving excellence

Ceredigion is currently the only council in Wales ranked as outstanding by Estyn, the school inspectorate. This has been achieved, in part, by a pioneering new system that tracks a child's development from the very earliest years. Using this system, Ceredigion is able to identify those children that need additional help early on in their lives. In doing this, resources are targeted at where they are most needed, and where the effect will be greatest.

Part of the problem with our education system is that teachers are often bogged down with bureaucracy. The time that they spend with the pupils is precious, and every moment that they spend on paperwork takes them away from the real work of teaching. Plaid Cymru believes in supporting teachers, rather than criticising them endlessly. The problem is often not the teachers, or the schools, but the ever-changing system of inspection and regulation. Plaid Cymru councils will shift the emphasis away from a centralised, Cardiff-based regime. Educational improvement should be about doing what is best for the individual pupil, with schools being accountable to the local community, not some far-away quango.



# Dyfodol dwyieithog

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i addysg ddwyieithog o'r safon uchaf. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn derbyn bellach fod dysgu mewn dwy iaith yn esgor ar fanteision addysgol enfawr. Dangosodd y rhan fwyaf o astudiaethau fod i blant ymwneud â dwy iaith o oedran cynnar yn helpu'r ymennydd i ddatblygu, gan ei gwneud yn haws dysgu sgiliau eraill ac ieithoedd eraill wrth i blant dyfu. Mae gan wahanol ardaloedd o Gymru anghenion gwahanol, ac mae cynghorwyr Plaid Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu darpariaeth addysgol sy'n ymateb i anghenion lleol. Ar hyn o bryd, mae gofyniad ar gynghorau i gynhyrchu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), ond mae'r rhain yn cael eu trin yn aml fel ychwanegiad dibwys. Rydym ni am i gynghorau lunio cynlluniau uchelgeisiol, sy'n cyflwyno gweledigaeth eofn am ddyfodol addysg cyfrwng Gymraeg at y dyfodol.

Bu cynghorwyr Plaid Cymru ar flaen y gad yn datblygu a chyflwyno addysg cyfrwng Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Rhwng 2008 a 2012, dan reolaeth Plaid Cymru, cynyddodd nifer y plant oedd yn mynd i addysg Gymraeg o 13.3% i 19.4%. Llwyddwyd i wneud hyn gan gynghorwyr ymroddedig yn gweithio'n galed a chefnogi dymuniadau a galwadau rhieni lleol am addysg Gymraeg, gan agor ysgolion newydd ac ehangu'r ddarpariaeth yn yr ysgolion presennol. Bydd cynghorwyr Plaid Cymru yn parhau i gefnogi'r twf hwn, ac y mae'r sir yn awr yn gartref i 11 o ysgolion cynradd Gymraeg, a chynyddu o hyd y mae'r galw am addysg cyfrwng Gymraeg yn y sector cynradd ac uwchradd.

Mae Plaid Cymru yn credu mewn darparu ysgolion ac athrawon gall ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond y mae hefyd yn golygu gwneud y Gymraeg yn rhan o fywydau beunyddiol plant. Yng Ngwynedd, mae ysgolion yn gweithio i wreiddio'r iaith ym mhob agwedd o fywydau'r plant. Mae ysgolion sy'n helpu eu disgyblion i fyw, yn hytrach na dim ond dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael siarteri iaith. Dyma ddatblygiad arloesol gan Gyngor Gwynedd a redir gan Blaid Cymru a fydd yn cael ei gyflwyno yn fuan dros Gymru i gyd.



# A bilingual future

Plaid Cymru is committed to bilingual education of the highest standard. Most parents now realise that learning in two languages brings enormous educational benefits. Studies have shown that exposing children to two languages from an early age helps the brain develop, making it easier to learn other skills and other languages as children grow older. Different areas of Wales have different needs, and Plaid Cymru councillors are committed to developing educational provision that responds to local needs. Councils are currently expected to produce Welsh Educational Strategic Plans (WESPs), but these are often treated as an afterthought. We want councils to put together plans that are ambitious and that represent a bold vision for the future of Welsh-medium education.

Plaid Cymru Councillors have been at the forefront of developing and delivering Welsh-medium education in Caerphilly County Borough. Between 2008 and 2012, under Plaid Cymru control, the number of children entering Welsh medium education grew from 13.3% to 19.4%. This was achieved by committed, hard-working councillors championing the wishes and demands by local parents for Welsh-medium education, opening new schools and expanding provision at existing schools. Plaid Cymru Councillors will continue to support this growth, with the county now being home to 11 Welsh Medium Primary Schools with demand still growing for both primary and secondary Welsh-medium education.

Plaid Cymru believes in providing schools and teachers who can educate through the medium of Welsh, but it also involves making the Welsh language a part of children's daily lives. In Gwynedd, schools work to embed the language into every aspect of the children's experience. Schools that help their pupils live, rather than just learn, through the medium of Welsh, are awarded language charters. This is an innovative development by Plaid Cymru-run Gwynedd Council that will soon be rolled out across Wales.

---

# **Prynu'n lleol. Buddsoddi'n lleol. Osgoi gwastraff.**

---

- **Buddsoddi lleol er lles lleol**
- **Gwaredu gwastraff yn gyfrifol**
- **Cymru Ianach a gwyrddach**



---

# **Buy locally. Invest locally. Avoid waste.**

---

- **Local investment for local benefit**
- **Responsible waste disposal**
- **A cleaner, greener Wales**



# Buddsoddi lleol er lles lleol

Bob blwyddyn mae ein cyngorau yn gwario miliynau o bunnoedd ar brynu nwyddau a gwasanaethau, ond yn rhy aml, mae'r arian hwn yn llifo allan o Gymru. Nid yw cyflenwyr bychain, lleol mewn sefyllfa pob tro i gystadlu â chystadleuwyr mwy am gontractau cyngorau.

Nid yw Llywodraeth Lafur Cymru fel petai'n poeni fod eu dull hwy o ddyfarnu contractau yn golygu fod cwmnïau Cymreig yn colli cyfleoedd. Mae Plaid Cymru eisïau newid hyn, gan osod systemau ar waith i gefnogi busnesau lleol sydd eisïau bidio am waith llywodraeth leol. Trwy ddyfarnu contractau yn gyfrifol a rhoi'r economi lleol yn gyntaf, mae gan ein cyngorau gyfle i sicrhau gwasanaethau a swyddi gyda busnesau lleol.

“

**Credwn y dylai contractau'r sector cyhoeddus yng Nghymru fynd i fusnesau Cymreig, polisi sy'n cadw buddsoddiad yng Nghymru, yn cefnogi swyddi ac yn cryfhau ein heconomi.**

”

Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â'r broblem hon, gan sefydlu system gaffael newydd a fwriadwyd i gadw'r budd yn lleol. Nid yn unig y mae hyn wedi cyfeirio miliynau i'r economi lleol, ond mae hefyd wedi arbed £2.3m i'r cyngor dros bum mlynedd.

Mae pob cyngor yn cadw arian wrth gefn, i gwrdd ag ymrwymïadau gwario yn y dyfodol. Mae'r cronfeydd hyn yn filiynau o bunnoedd i bob cyngor, ac y mae rhannau wedi eu cloi mewn portffolio buddsoddiadau. Mae Plaid Cymru yn credu y gellid buddsoddi'r arian yma yn well mewn prosiectau lleol, risg-isel.

Lle'r ydym yn rhoi arian cyhoeddus mewn cronfeydd buddsoddi, mae Plaid Cymru yn credu y dylid gwneud hyn yn foisol. Mae gan gyngorau ddyletswydd i gael yr elw mwyaf o'u buddsoddiadau, ac i leihau risg. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylai'r ddyletswydd hon wrthdaro â'r cyfrifoldeb i fuddsoddi'r arian hwn yn foisol. Ni ddylai'r arian a ddaw o'n trethi gael ei fuddsoddi mewn cwmnïau sydd yn dinistrio'r amgylchedd, yn gwerthu arfau, nac sy'n cefnogi llywodraethau gormesol.

“

**Bydd Plaid Cymru yn parhau i arddel polisi o fuddsoddi arian wrth gefn sydd gan gyngorau mewn dull moesol a chyfrifol.**

”

# Local investment for local benefit

Each year our councils spend millions of pounds buying goods and services, but all too often this money flows out of Wales. Small, local suppliers aren't always set up to compete with larger rivals for council contracts.

The Labour Welsh Government doesn't seem to care that their way of awarding contracts means that Welsh companies are missing out on opportunities. Plaid Cymru wants to change this, putting systems in place to support local businesses who want to bid for local government work. By awarding contracts responsibly and by putting the local economy first, our councils have the opportunity to secure services and jobs within local businesses.

“

**We believe that Welsh public sector contracts in Wales should go to Welsh businesses, a policy which keeps investment in Wales, supports jobs and strengthens our economy.**

”

Gwynedd Council have already begun tackling this problem, putting in place a new procurement system designed to keep the benefit local. Not only has this pumped millions into the local economy, but it has also saved the council £2.3m over five years.

All councils hold money in reserve, to meet future spending commitments. This reserve runs into the millions of pounds for each council, and parts of it are often locked away in an investment portfolio. Plaid Cymru believes that this is money that could be better invested in local, low-risk projects.

Where we are putting public money into investment funds, then Plaid Cymru believes that this should be done ethically. Councils have a duty to maximise the return on their investment, and to minimise risk. However, we do not believe that this duty should conflict with a responsibility to invest this money ethically. The money raised from our taxes shouldn't be invested in companies that destroy the environment, sell arms, or support repressive regimes abroad.

“

**Plaid Cymru will continue to pursue a policy of investing council reserves in an ethical and responsible manner.**

”

# Gwaredu gwastraff yn gyfrifol

Bu Plaid Cymru yn hyrwyddo achosion amgylcheddol ers amser hir, a chredwn nad yw'r nod cyfredol gan Lywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o sbwriel Cymru erbyn y flwyddyn 2025 yn ddigon uchelgeisiol. Lle mae Plaid Cymru mewn grym, rydym wedi arwain y ffordd yn hyn o beth, gan ei gwneud yn hawdd a hwylus i drigolion waredu popeth o boteli plastig i gewynnau babis mewn dull diogel, glân a chyfeillgar i'r amgylchedd. Cyngor Ceredigion dan arweiniad Plaid Cymru sydd ar frig y tabl gyda 68% o wastraff yn cael ei ailgylchu. Cymharwch hyn â Blaenau Gwent dan arweiniad Llafur, lle'r anfonir dim mwy na 47% o wastraff i ailgylchu.

Bydd cyngorau Plaid Cymru yn arddel polisïau sy'n ei gwneud mor hawdd â phosib i drigolion ailgylchu yn effeithiol, a lleihau faint o gwastraff a anfonir i dirlenwi. Mae hyn yn golygu sicrhau casgliadau wythnosol i bopeth y gellir ei ailgylchu, gwastraff bwyd, a chewynnau.

“

**Bydd cyngorau Plaid Cymru yn arddel polisïau sy'n ei gwneud mor hawdd â phosib i drigolion ailgylchu yn effeithiol, a lleihau faint o gwastraff a anfonir i dirlenwi.**

”





# Responsible waste disposal

Plaid Cymru have long championed environmental causes, and we believe that the Labour government's current aim of recycling 70% of Wales' rubbish by the year 2025 isn't ambitious enough. Where Plaid Cymru is in power, we have led the way on this issue, making it easy and convenient for residents to dispose of everything from plastic bottles to babies' nappies in a safe, hygienic and environmentally-friendly way. Plaid Cymru-run Ceredigion Council tops the table with 68% of household waste being recycled. Compare this to Labour-led Blaenau Gwent, where a mere 47% of waste is sent for recycling.

Plaid Cymru councils will pursue policies that make it as easy as possible for residents to recycle effectively, while minimising the amount of waste that is sent to landfill. This means ensuring weekly collections for all recyclables, food waste, and nappies.

“

**Plaid Cymru councils will pursue policies that make it as easy as possible for residents to recycle effectively, while minimising the amount of waste that is sent to landfill.**

”

# Cymru lanach a gwyrddach

## Defnyddio adnoddau naturiol Cymru

Mae'n hawdd iawn i ni gwyno am y tywydd yng Nghymru, ond mae'r gwynt a'r glaw yn adnoddau naturiol gwerthfawr.

“

**Mae Plaid Cymru wedi ymrwmo i frwydro yn erbyn newid hinsawdd, ac yn cydnabod fod cynhyrchu ynni adnewyddol yn rhan hanfodol o leihau allyriadau carbon. Mae gan ein cyngorau ran hanfodol i'w chwarae wrth gydnabod a datblygu economi werdd Cymru.**

”

Rydym eisiau sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa o fanteision ynni gwyrdd. Rydym eisiau gweld datblygu cynaliadwy ar raddfa lai sydd yn gweithio mewn cytgord â'r amgylchedd lleol. Rydym hefyd eisiau gweld newid yn y system gynllunio sydd yn ei gwneud yn haws sefydlu prosiectau ynni adnewyddol ar raddfa fechan sy'n eiddo i'r gymuned. Er ein bod yn cydnabod fod angen i ni warchod ein tirwedd, credwn fod Cymru wledig yn fwy na cherdyn post del. Dylid gwneud newidiadau i fireinio'r broses o sefydlu prosiectau ynni gwyrdd newydd, er lles Cymru ac amgylchedd y byd.

Gall tyrbinau gwynt unigol roi i ffermwyr ffynhonnell bwysig o incwm ychwanegol, gan roi sefydlogrwydd ariannol iddynt ar gyfnod ansicr iawn. Yn yr un modd, mae modd defnyddio prosiectau sydd yn nwylo'r gymuned i gynhyrchu trydan gwyrdd, ond hefyd ffrwd elw sefydlog y gellir ei fuddsoddi mewn gwasanaethau a chyfleusterau lleol.

Ac er y gall gwynt a glaw fod yn ffynhonnell fwy dibynadwy o ynni, mae gan Gymru ddigon o heulwen i gynnal prosiectau pŵer solar. Mae modd gosod paneli solar ar dir amaethyddol heb darfu fawr ddim ar y ffermwr, a gall defaid a gwartheg bori mewn caeau llawn paneli solar. Nid yn unig y mae cynlluniau o'r fath yn cynnig lles amgylcheddol, ond hefyd incwm ychwanegol i'n ffermwyr.

Cred Plaid Cymru mewn dull cynaliadwy o fyw, gan ofalu ein bod yn trosglwyddo ein planed mewn cyflwr da i'n plant, ein hwyron a'n hwyresau.

# A cleaner, greener Wales

## Making use of Wales' natural resources

We may moan about the Welsh weather, but the wind and the rain are valuable natural resources.

“

**Plaid Cymru is committed to fighting climate change, and recognises that renewable energy generation is a vital part of reducing carbon emissions. Our councils have a vital role to play in recognising and developing Wales' green economy.**

”

We want to ensure that local communities reap the benefit of green energy. We want to see smaller-scale, sustainable development that works in harmony with the local environment. We also want to see a change in the planning system that makes it easier to set up small-scale and community-owned renewable energy projects. While we recognise the need to protect

our landscape, we believe that rural Wales is more than a picture postcard. Changes should be made to streamline the process of establishing new green energy projects, for the benefit of Wales and the global environment.

Individual wind turbines can provide farmers with a vital source of additional income, giving them financial stability in a period of great uncertainty. Likewise, community-owned projects can be used to generate both green electricity, but also a steady profit stream that can be invested in local services and facilities.

And while the wind and the rain may prove to be a more reliable source of energy, Wales provides enough sunshine to sustain solar power projects. Solar panels can often be sited on agricultural land with little or no disruption to the farmer, with sheep and cattle being able to graze in field full of solar panels. Such schemes not only offer an environmental benefit, but also provide additional income for our farmers. Plaid Cymru believes in a sustainable way of living, making sure that we hand on our planet in good order to our children and grand-children.

---

# Cartref addas i bawb

---

- Diwygio cynllunio
- Buddsoddi mewn tai  
cymdeithasol
- Mynd i'r afael  
â thai gwag



---

# A suitable home for all

---

- **Planning reform**
- **Investment in social housing**
- **Tackling empty homes**





# Diwygio cynllunio

Mae'r system gynllunio bresennol wedi ei dylunio i wasanaethu datblygwyr mawr masnachol, yn hytrach na phobl gyffredin. Mae cynlluniau datblygu lleol yn cael eu cynhyrchu i gwrdd ag anghenion yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghaerdydd yn hytrach nag anghenion cymunedau lleol. Pan ddaw'n fater o geisiadau i godi tai unigol, mae'r byd fel petai ben i waered. Gwrthodir caniatâd i ddatblygiadau bychain cynaliadwy. Mae stadau tai enfawr yn cael eu codi ar dir glas, yn groes i ddymuniadau'r trigolion lleol, heb y buddsoddiad angenrheidiol mewn ysgolion, ffyrdd a gwasanaethau lleol. Mae cynlluniau yn dweud eu bod yn ystyried yr amgylchedd, y gymuned a'r iaith Gymraeg - ond yn ymarferol, nid ydynt yn cyfrif am fawr ddim. Mae'r weinyddiaeth Lafur yng Nghymru ond gwneud y sefyllfa'n waeth, gan basio Deddf Gynllunio yn 2015 sydd wedi dwyn grym oddi wrth gymunedau lleol.

Byddwn yn craffu ar Gynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi eu datblygu ac sydd wrthi'n cael eu datblygu. Bydd ein cynghorwyr yn gweithio ynghyd i'w newid a'u gwella, gan fonitro pob cam o'u datblygiad a'u gweithredu. Lle gwelir eu bod nhw angen newid, byddwn yn brwydro i'w hail-ysgrifennu, er mwyn gwneud yn sicr eu bod yn cwrdd â gwir anghenion cymunedau Cymru.

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i sicrhau fod gan bawb gartref diogel a chyfforddus. Bydd ein cynghorau yn cymryd camau i ofalu bod landlordiaid preifat yn cael eu hatal rhag gosod tenantiaid mewn tai o ansawdd isel.

“

**Bydd Plaid Cymru yn parhau i frwydro dros system gynllunio deg ar lefel genedlaethol. Ond fe all cynghorwyr unigol wneud gwahaniaeth ar lefel leol, a dyna wnaiff cynghorwyr Plaid Cymru. Byddwn yn brwydro dros ddatblygu cynaliadwy sydd yn fforddiadwy, ac wedi ei wreiddio yn anghenion y gymuned.**

”



# Planning reform

The current planning system is designed to serve big commercial developers, rather than ordinary people. Local development plans are produced to meet the needs of the Planning Inspectorate in Cardiff, rather than the needs of local communities. When it comes to applications to build individual homes, the world seems to be turned upside down. Small-scale, sustainable developments are refused permission. Huge housing estates are built on green land, against the wishes of local residents, without the necessary investment in local schools, roads and services. Plans pay lip service to the environment, to the community and to the Welsh language – but in practice they count for little. Labour in Wales have only made the situation worse, passing a Planning Act in 2015 that took power away from local communities.

We will scrutinise the Local Development Plans that have been developed, and that are in the process of being developed. Our councillors will work together to amend and improve them, monitoring every step of their compilation and implementation. Where they are found to be flawed, we will fight to have them re-written, to ensure that they meet the genuine needs of Welsh communities.

Plaid Cymru is committed to ensuring that everyone has a home that is safe and comfortable. Our councils will take steps to ensure that private landlords are prevented from placing tenants in low-quality houses.

“

**Plaid Cymru will continue to fight for a fair planning system on a national level. But individual councillors have made, and Plaid Cymru councillors will continue to make, a difference on a local level. We will fight for sustainable development that is affordable, and rooted in the needs of the community.**

”

# Buddsoddi mewn tai cymdeithasol

Er y byddwn yn parhau i gefnogi'r sawl all brynu neu godi eu tai eu hunain, yr ydym yn sylweddoli hefyd fod llawer o bobl yng Nghymru na all roi cam ar yr ysgol dai o gwbl, ac sy'n cael eu prisio allan o'r farchnad rhentu breifat.

Credwn mai'r unig ateb i'r broblem hon yw codi mwy o dai cymdeithasol a thai fforddiadwy, fel bod gan bawb gyfle i sicrhau cartref parchus. Yn 2016, ymrwymodd Cyngor Sir Gâr dan arweiniad Plaid Cymru i godi 60 o dai cyngor ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf, fel rhan o Ymrwymiad Tai Fforddiadwy ehangach gwerth £60m sydd yn addo darparu dros 1000 o dai fforddiadwy dros y pum mlynedd nesaf.

“

**Mae Plaid Cymru yn credu bod gan bawb yr hawl i gartref addas.**

”

Byddwn yn cynyddu'r gyfran o dai cymdeithasol sy'n cael ei addasu ar gyfer pobl ag anghenion gofal, fel y gallwn sicrhau fod pobl yn parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag sydd modd.

Wrth gwrs, mewn sawl rhan o Gymru, nid y cynghorau bellach sy'n gyfrifol am ddarparu tai cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na allant godi tai newydd i'w dinasyddion. Mae Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol (YTC) yn cynnig cyfle i gynghorau weithio gyda thrigolion i ddatblygu tai newydd sydd yn cwrdd ag anghenion lleol mewn ffyrdd newydd. Mae YTC yn aml yn dwyn i mewn asiantaethau eraill, megis cynghorau cymuned a landlordiaid cymdeithasol, sydd yn datblygu tai newydd sy'n aml yn cyfuno perchenogaeth gyhoeddus a phreifat. Trwy YTC, gall cynghorau gynnig ystod ehangach o ddewisiadau, gan greu datblygiadau ar raddfa fechan sydd wedi eu teilwra i anghenion cymunedau lleol.

“

**Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau cymuned, landlordiaid cymdeithasol a phartneriaid eraill i ddatblygu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol fel dull cynaliadwy o wella'r ddarpariaeth dai sydd yn llawn ystyried ac yn parchu anghenion lleol**

”



# Investment in social housing

While we will continue to support those who can buy or build their own home, we also realise that there are a great many Welsh people who simply cannot get on the housing ladder, and who are priced out of the private rental market.

This is not acceptable in our eyes. We believe that the only answer to this problem is to build more social housing and affordable homes, so that everyone has a chance to secure a decent home. In 2016 Plaid Cymru-led Carmarthenshire County Council committed to build another 60 council houses over the next two years, as part of a broader £60m Affordable Homes Commitment which promises to deliver more than 1000 affordable homes over the next five years.

“

**Plaid Cymru believes that everyone has the right to a decent home.**

”

We will increase the proportion of social housing that is adaptable for people with care needs, so that we can ensure people can stay living in their own homes for as long as possible.

Of course, in many parts of Wales councils are no longer responsible for providing social housing. However, this does not mean that they cannot build new homes for their citizens. Community Land Trusts (CLTs) offer an opportunity for councils to work with residents to develop new housing that meets local needs in innovative ways. CLTs often involve other agencies, such as community councils and social landlords, who develop new housing that often combines public and private ownership. Through CLTs, councils are able to offer a broader range of options, creating small-scale developments that are tailored to the needs of local communities.

“

**“We will work in partnership with community councils, social landlords and other partners to develop Community Land Trusts as a sustainable means of improving housing provision which fully considers and respects local need.”**

”

# Mynd i'r afael â thai gwag

Mae'n warth o beth, ar adeg pan fo cymaint o bobl heb fedru cael cartref clyd, fod miloedd o dai yn wag. Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i roi defnydd eto i dai gwag, a sicrhau eu bod ar gael i'r sawl sydd wir eu hangen.

Lle gadawyd eiddo yn wag am gyfnodau estynedig o amser, a'u bod yn falltodd ar y gymuned leol, fe wnawn ni ddefnyddio Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag (GRhAG) i'w rhoi ar ddefnydd eto. Mae GRhAG yn caniatáu i gyngor lleol feddiannu cartref gwag sy'n dechrau dadfeillio. Mae'r cyngor wedyn yn ei drwsio, ac yn ei rentu allan i'r sawl sydd ar y rhestr aros am dai cymdeithasol. Mae'n ateb syml, nad yw'n costio gormod, ond yn un nad yw ein cyngorau yn defnyddio digon arno. Bydd ein cyngorwyr ni yn defnyddio pob dull a fedrant i roi defnydd eto i dai gwag.

“

**Bydd ein cyngorwyr ni yn defnyddio pob dull a fedrant i roi defnydd eto i dai gwag.”**

”



# Tackling empty homes

It is obscene that while so many people are denied a decent home, thousands of houses stand empty. Plaid Cymru is committed to bringing empty houses back into use, and making them available for those who really need them.

Where properties have been left empty for extended periods of time, and are a blight on the local community, we will use Empty Dwelling Management Orders (EDMOs) to bring them back into use. An EDMO allows the local council to take possession of an empty home that has fallen into disrepair. The council then renovates it, and rents it out to those on the waiting list for social housing. It is a simple, low-cost solution, but one that is under-used by our councils. Our councillors will use every method at their disposal to bring empty houses back into use.

“

**Our councillors will use every method at their disposal to bring empty houses back into use.**

”



Plaid Cymru | Party of Wales

Hynwyddwyd gan/ Promoted by: Plaid Cymru, Ty Gwynfor, Llys Anson, Caerdydd/ Cardiff, CF10 4AL ar ran Plaid Cymru.

Photos by Keith Morris on pages / Llundiau gan Keith Morris ar dudalennau: 1, 2, 4, 8, 9, 22, 23, 26, 27, 32, 33, 34, 35, 38, 39, 42, 43, 44.